| | |
|---|---|
| PWYLLGOR | **PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU** |
| DYDDIAD | **6 MEHEFIN 2017** |
| TEITL | **ADRODDIAD BLYNYDDOL PENNAETH ARCHWILIO MEWNOL 2016/17** |
| PWRPAS YR ADRODDIAD | **MYNEGI BARN ARCHWILIO MEWNOL AR YR AMGYLCHEDD REOLAETHOL GYFFREDINOL O FEWN YR AWDURDOD** |
| AWDUR | **LUNED FÔN JONES - RHEOLWR ARCHWILIO** |
| GWEITHREDIAD | **DERBYN YR ADRODDIAD** |

---

**1. BWRIAD ARCHWILIO MEWNOL**

1.1 Pwrpas y gwasanaeth Archwilio Mewnol yw:

***Rhoi hyder i'r dinesydd a'r Cyngor am amgylchedd reolaeth a threfniadau llywodraethu'r Cyngor trwy adrodd yn annibynnol a gwrthrychol i'r Pennaeth Cyllid a'r Pwyllgor Archwilio***

**2. SAFONAU ARCHWILIO MEWNOL Y SECTOR GYHOEDDUS**

2.1 Mae Nodyn CIPFA sy'n cymhwyso Safonau Archwilio Mewnol y Sector Gyhoeddus i Lywodraeth Leol yn datgan:

*"Mae'r sefydliad yn gyfrifol am sefydlu a chynnal prosesau rheoli risg priodol, systemau rheoli, cofnodion cyfrifo a threfniadau llywodraethu. Mae Archwiliad Mewnol yn chwarae rhan hanfodol o ran cynghori'r sefydliad bod y trefniadau hyn yn eu lle ac yn gweithredu'n briodol. Mae'r farn archwilio mewnol blynyddol, sy'n gwybyddu'r datganiad llywodraethu, yn pwysleisio ac yn adlewyrchu pwysigrwydd yr agwedd hon ar waith archwilio mewnol."*

2.2 Pwrpas yr adroddiad yma yw darparu cyfryw farn archwilio mewnol blynyddol i'r Awdurdod. Wrth roi fy marn, dylid nodi na all sicrwydd fyth fod yn llwyr. Y mwyaf y gall gwasanaeth archwilio mewnol ei ddarparu i'r Cyngor ydi cyngor rhesymol nad oes gwendidau mawr yn y system gyfan o reolaeth fewnol.

2.3 Wrth asesu'r lefel cyngor i'w roi, rwyf wedi ystyried pob archwiliad sy'n berthnasol i 2016/17 ac unrhyw weithrediad dilynol parthed archwiliadau o'r cyfnod yma a chyfnodau blaenorol.

**3. SICRWYDD CYFFREDINOL**

3.1 **Ar sail gwaith Archwilio Mewnol a gwblhawyd yn ystod 2016/17, yn fy marn i, mae gan Cyngor Gwynedd fframwaith gadarn o reolaeth fewnol. Mae hyn yn cynorthwyo i roi hyder yn y trefniadau i sicrhau cyfiawnhad effeithiol ac effeithlon o amcanion y Cyngor, gan fod y camau a gymerwyd gan y Cyngor yn ystod y flwyddyn ariannol i gynnal a cryfhau rheolaethau mewnol ac i sicrhau fod y camau gweithredu cytunedig i gywiro gwendidau a adnabuwyd gan Archwilio Mewnol wedi bod yn foddhaol.**

3.2 **Ystyriaethau**

Er mwyn rhoi fy marn ar ddigonolrwydd y systemau rheolaeth fewnol, rwyf wedi ystyried y canlynol:

- Yn gyffredinol, canfuwyd rheolaeth fewnol dda o fewn pob un o wasanaethau'r Cyngor yn unigol.
- Mae holl adrannau'r Cyngor wedi adeiladu ar waith blaenorol, gan barhau i ddatblygu eu cyfundrefnau rheoli risg.
- Ble canfuwyd gwendidau arwyddocaol mewn rheolaeth fewnol, cafodd y materion hyn eu cywiro gan swyddogion y Cyngor, y Gweithgor Gwella Rheolaethau neu fe dderbyniasant sylw gan y Pwyllgor Archwilio.
- Nid yw Archwilio Mewnol wedi dibynnu ar unrhyw waith gan gyrff archwilio allanol er mwyn dod i'r farn yn yr adroddiad yma.

**4. GWAITH ARCHWILIO**

**Cynllun Archwilio**

4.1 Roedd 72 darn o waith wedi eu cynnwys yng nghynllun archwilio addasedig terfynol 2016/17. Cafodd 69 o'r aseiniadau hyn eu cwblhau erbyn 31 Mawrth 2017, sy'n cynrychioli **95.83%** o'r cynllun. At bwrpasau'r mesur yma caiff aseiniad ei gyfrif wedi ei gwblhau os oes adroddiad/memorandwm terfynol wedi ei ryddhau neu os yw'r aseiniad wedi ei gau a ni ddisgwylir treulio mwy o amser arno. Yr uchelgais perfformiad oedd 95%.

4.2 Mae'r perfformiad yma yn cymharu â perfformiad 2015/16 o 98.65%, yn erbyn targed o 95%.

4.3 Yr archwiliadau o gynllun 2016/17 lle nad oedd yr adroddiad wedi ei ryddhau'n derfynol erbyn 31 Mawrth oedd:

- ***Storiel – Trefniadau Llywodraethu a Rheoli.*** Mae'r gwaith maes eisoes wedi ei gwblhau ar gyfer yr archwiliad. Bu oedi yn ein gallu i ymweld â Storiel oherwydd bod cyfrifoldebau staffio wedi newid yno yn ddiweddar a gwnaethpwyd cais i Archwilio Mewnol beidio ymweld nes bod y swyddogion newydd wedi cael amser i ymgyfarwyddo â'r trefniadau.
- ***Hafan.*** Mae'r gwaith maes wedi ei gwblhau erbyn hyn gyda'r adroddiad wedi ei rhyddhau'n ddrafft.

- ***Systemau TG.*** Roedd archwiliadau wedi eu cynllunio i'w cynnal gyda chymorth cyflenwr allanol yn y maes yma, yn benodol aer mwyn adolygu storfa cwmwl ac elfennau diogelwch eraill. Yn anffodus ni lwyddwyd i gynnal yr archwiliadau oherwydd gwaeledd y cyflenwr.

4.4 Mae rhestr o'r archwiliadau o gynllun 2016/17 sydd wedi cyfrannu at y farn a fynegir yn yr adroddiad blynyddol wedi eu rhestru yn Atodiad 1.

4.5 Ble'n berthnasol, caiff adroddiadau archwiliad mewnol eu categoreiddio er mwyn rhoi barn archwilio gyffredinol ar amgylchedd reolaeth y system neu sefydliad benodol dan sylw.

Barn "A" Gellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle, a'u bod wedi eu dilyn.

Barn "B" Mae rheolaethau mewn lle, a gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol gan fod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau.

Barn "C" Ni ellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol gan na ellir dibynnu ar y rheolaethau mewn lle, ond ni ddarganfuwyd colledion / twyll yn deillio o'r gwendidau rheolaeth.

Barn "CH" Ni ellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol gan nad oes rheolaethau derbyniol yn bodoli, a darganfuwyd colledion / twyll yn deillio o'r gwendidau rheolaeth hyn.

4.6 Cafodd pob gweithrediad cytunedig a gyflwynwyd o fewn yr adroddiadau eu gwneud er mwyn cryfhau'r rheolaethau mewnol sydd yn lliniaru risgiau gweithredol ac i sefydlu ymarfer da.

4.7 O'r 69 aseiniad yng nghynllun archwilio 2016/17 a gafodd eu cwblhau, dyfarnwyd y categorïau barn canlynol:

| **Categori Barn** | **Nifer Archwiliadau** |
|---|---|
| A | 7 |
| B | 41 |
| C | 8 |
| CH | 0 |
| Dim Categori | 13 |
| **Cyfanswm** | **69** |

4.8 O'r adroddiadau perthnasol o gynllun archwilio 2016/17 a dderbyniodd gategori Barn 'A' i 'Ch', derbyniodd 85.71% ohonynt farn 'A' neu 'B'. Mae'r ffigwr yn uwch na'r ffigwr cyfatebol o 78.33% ar gyfer 2015/16.

4.9 Ni dderbyniodd unrhyw archwiliad farn ‘Ch’.

4.10 Caiff yr adroddiadau llawn eu cyflwyno i’r Pwyllgor Archwilio ar ôl i’r adroddiad terfynol gael ei gytuno gyda’r cleiant a’i ryddhau. Lle caiff memorandwm ei anfon yn hytrach nag adroddiad llawn, a lle nad oes categori barn, mae’r Pwyllgor Archwilio yn derbyn crynodeb byr o ddarganfyddiadau’r archwiliadau perthnasol ble’n briodol.

4.11 Dengys y tabl isod pa gyfarfod o’r Pwyllgor Archwilio a dderbyniodd fanylion yr archwiliadau o gynllun 2016/17. Mae dyddiadau cyfarfodydd perthnasol y Pwyllgor Archwilio hefyd wedi eu rhestru yn Atodiad 1.

| **Dyddiad Rhyddhau’r Adroddiad/ Memorandwm Terfynol** | **Dyddiad Adrodd i’r Pwyllgor Archwilio** |
|---|---|
| 1 Ebrill 2016 – 30 Mehefin 2016 | 14 Gorffennaf 2016 |
| 1 Gorffennaf 2016 – 16 Medi 2016 | 29 Medi 2016 |
| 19 Medi 2016 – 18 Tachwedd 2016 | 1 Rhagfyr 2016 |
| 21 Tachwedd 2016 – 27 Ionawr2017 | 9 Chwefror 2017 |
| 30 Ionawr 2017 – 31 Mawrth 2017 | 6 Mehefin 2017 |

**Addasiadau i’r Cynllun**

4.12 Adroddwyd yn rheolaidd i’r Pwyllgor Archwilio yn ystod y flwyddyn ar addasiadau i’r cynllun archwilio.

**Gwaith Dilyniant**

4.13 Rhyddhawyd memorandwm terfynol ar gyfer 12 o archwiliadau dilyniant yn ystod y cyfnod 1 Ebrill 2016 i 31 Mawrth 2017. Derbyniodd un ar ddeg o'r archwiliadau hyn farn “derbyniol” neu well. Mae hyn yn awgrymu fod trefniadau cadarn ar y cyfan o fewn yr awdurdod i weithredu argymhellion archwilio er mwyn cryfhau rheolaethau mewnol a rheoli risg.

**Gweithgor Gwella Rheolaethau**

4.14 Parhaodd y Gweithgor Gwella Rheolaethau gyda’i waith o gryfhau trefniadau’r Cyngor i ymateb i adroddiadau Archwilio Mewnol. Mae’r Gweithgor, sef Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor a tri aelod arall (sydd wedi eu cylchdroi) yn cwrdd rhwng cyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio ac yn trafod materion o wendidau rheolaeth sydd wedi codi yng nghyfarfod y Pwyllgor, er mwyn rhoi sylw i’r rhain mewn mwy o ddyfnder. Mae pob archwiliad sydd wedi derbyn barn ‘C’ neu ‘Ch’ yn cael sylw yno, gyda swyddogion yn cael eu gwahodd yno i egluro’r gwendid rheolaeth, ac yn anad dim y camau sydd yn cael eu dilyn i wella’r sefyllfa.

## 5. ADNODDAU ARCHWILIO MEWNOL

**Staffio a Chymwysterau**

5.1 Y Rheolwr Archwilio sydd yn ymgymryd â swyddogaeth “Pennaeth Archwilio Mewnol”. Mae’r Rheolwr Archwilio yn atebol i’r Uwch Reolwr Refeniw a Risg, sydd

yn atebol i'r Pennaeth Cyllid. Mae gan y Rheolwr Archwilio a'r ddau Arweinydd Archwilio gymhwyster CIPFA llawn. Mae un Uwch Archwiliwr yn astudio am gymhwyster AAT.

5.2 Ers 1 Ebrill 2016, 7 aelod llawn amser sydd i'r Tîm Archwilio Mewnol.

**Y defnydd a wneir o adnoddau staff**

5.3 Mae Atodiad 2 yn cynnwys dadansoddiad o ddefnydd amser swyddogion Archwilio Mewnol yn ystod y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2016 a 31 Mawrth 2017. Tynnir sylw'r Pwyllgor i'r canlynol:

- Mae'r tabl yn arddangos lleihad yn nifer y dyddiau cynhyrchiol oedd ar gael i'w darparu ar gyfer archwiliadau Cyngor Gwynedd o ganlyniad i drosiant uwch na'r arfer o staff, o **1,117** diwrnod rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2016 i **944** diwrnod am yr un cyfnod yn 2016/17, lleihad o **173**.
- Roedd y nifer o ddyddiau a ddefnyddiwyd ar gyfer cyflawni archwiliadau arbennig neu ymatebol yn 58 diwrnod fel y nifer o ddiwrnodau yn 2015/16.
- Bu cynnydd yn y nifer o ddyddiau a ddefnyddiwyd i gyflawni archwiliadau dilyniant - 45 diwrnod yn 2016/17 o gymharu â 41 diwrnod yn 2015/16 – ond cynhaliwyd 12 archwiliad dilyniant yn 2016/17 o gymharu â 9 archwiliad dilyniant yn 2015/16.

## 6. PERFFORMIAD ARCHWILIO

6.1 Roedd canlyniadau mesurau cyflawni y gwasanaeth archwilio mewnol yn ystod 2015/16 fel a ganlyn:

| **Disgrifiad Mesurydd** | **Perfformiad 2015/16** | **Uchelgais 2016/17** | **Canlyniadau 2016/17** |
|---|---|---|---|
| Canran archwiliadau'r cynllun archwilio sydd yn barod i'w cyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio am eu bod unai gydag adroddiad terfynol wedi ei ryddhau, neu wedi eu gau | 98.65% | 95% | **95.83%** |
| Cyfran o'r archwiliadau mewnol yn cyrraedd barn 'B' neu well (mesur corfforaethol) | 78.33% | 65% | **85.71%** |
| Cyfran o'r adroddiadau dilyniant Archwilio Mewnol yn cyrraedd barn "Derbyniol" neu well (mesur corfforaethol) | 88.88% | 90% | **83.00%** |

6.2 Llwyddwyd i gwrdd â'r uchelgais oni bai am y canlynol:

- ***Cyfran o'r adroddiadau dilyniant Archwilio Mewnol yn cyrraedd barn "Derbyniol" neu well (mesur corfforaethol)*** – roedd 11 archwiliad allan o 12 wedi cyrraedd barn "Derbyniol" neu well, felly un archwiliad dilyniant oedd wedi methu dod i'r safon disgwyliedig.

**7. CYNLLUNIAU GWAITH A THARGEDAU 2017/18**

7.1 Cyflwynwyd cynllun archwilio mewnol drafft ar gyfer 2017/18 i'r Pwyllgor Archwilio yn ei gyfarfod ar 9 Chwefror 2017. Mae'r cynllun diweddaraf, yn cynnwys addasiadau ers y Pwyllgor, wedi ei gynnwys yn Atodiad 3.

7.2 Mae mesurau cyflawni Archwilio Mewnol yn dangos pa mor dda yr ydym yn cyflawni ein pwrpas. Dengys fesurau cyflawni Archwilio Mewnol ar gyfer 2017/18 isod:

| Mesur | Uchelgais 2016/17 | Cyfeiriad Uchelgais |
|---|---|---|
| Canran archwiliadau'r cynllun archwilio sydd yn barod i'w cyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio am eu bod unai gydag adroddiad terfynol wedi ei ryddhau, neu wedi eu gau | 95% | Cynnal |
| Cyfran o'r archwiliadau mewnol yn cyrraedd barn 'B' neu well (mesur corfforaethol) | 65% | Cynnal |
| Cyfran o'r gweithrediadau cytunedig sydd wedi eu gweithredu yn unol â'r amserlen. (mesur corfforaethol). Cytunwyd ar 205 o weithrediadau i liniaru risgiau a amlygwyd yn ystod 2016/17. | 85% | Mesur Newydd |

**8. ARGYMHELLIAD**

8.1 Gofynnir i'r Pwyllgor dderbyn yr adroddiad yma fel adroddiad blynyddol ffurfiol y Pennaeth Archwilio Mewnol yn unol â gofynion Safonau Archwilio Mewnol y Sector Gyhoeddus am y flwyddyn ariannol 2016/17.

# Cynllun Archwilio Mewnol 2016/17

| Enw'r Archwiliad | Categori Barn | Dyddiad Cyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio |
|---|---|---|
| **CORFFORAETHOL** | | |
| Cefnogi Adolygiadau Ffordd Gwynedd | **Dim Categori** | |
| Trefniadau Diogelu - Gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd | **B** | 6 Mehefin 2017 |
| Trefniadau Diogelu - Ymwybyddiaeth Gweithwyr o'r Polisi | **B** | 6 Mehefin 2017 |
| Trefniadau Diogelu- Sefydliadau | **Dim Categori** | 6 Mehefin 2017 |
| Gwaith Atal Twyll ac Atal Llygredigaeth Rhagweithiol | **Dim Categori** | |
| Rheoli Gwybodaeth | **B** | 29 Medi 2016 |
| Rheoli Gwybodaeth - Sefydliadau | **Dim Categori** | 6 Mehefin 2017 |
| Defnydd o Gardiau Credyd | **B** | 6 Mehefin 2017 |
| Y Fenter Twyll Genedlaethol | **Dim Categori** | |
| **Cynllunio Argyfwng** | | |
| Cyflenwadau Tanwydd - Cynlluniau Rhanbarthol a Lleol | **C** | 14 Gorffennaf 2016 |
| **ADDYSG** | | |
| **Adnoddau** | | |
| Grant Amddifadedd Disgyblion | **B** | 1 Rhagfyr 2016 |
| Grant Gwella Addysg ar gyfer Ysgolion | **B** | 1 Rhagfyr 2016 |
| Grant Addysg Ôl-16 | **Dim Categori** | 9 Chwefror 2017 |
| Trefniadau Diogelu ac Amddiffyn Plant | **B** | 6 Mehefin 2017 |
| **Ar draws yr adran** | | |
| Ysgol Arbennig Dwyfor Meirionnydd | **B** | 29 Medi 2016 |
| **Ysgolion** | | |
| Ystadegau a Chyfrifiadau - Uwchradd | **Dim Categori** | 6 Mehefin 2017 |
| Rheolaeth Gyllidebol - Ysgol Beddgelert | **B** | 1 Rhagfyr 2016 |
| Rheolaeth Gyllidebol - Ysgol Bro Plenydd | **B** | 29 Medi 2016 |
| Rheolaeth Gyllidebol - Ysgol Eifion Wyn | **B** | 29 Medi 2016 |
| Rheolaeth Gyllidebol - Ysgol Talsarnau | **C** | 1 Rhagfyr 2016 |
| Rheolaeth Gyllidebol - Ysgol Tregarth | **B** | 1 Rhagfyr 2016 |
| Rheolaeth Gyllidebol - Ysgol Santes Helen | **B** | 1 Rhagfyr 2016 |
| Ysgolion - Cyffredinol | **Dim Categori** | |
| Diogelwch Gwybodaeth - Ysgol Abererch | **B** | 14 Gorffennaf 2016 |
| Diogelwch Gwybodaeth - Ysgol Penybryn | **B** | 14 Gorffennaf 2016 |
| Diogelwch Gwybodaeth - Ysgol Crud y Werin | **B** | 14 Gorffennaf 2016 |
| Diogelwch Gwybodaeth - Ysgol Penisarwaen | **B** | 14 Gorffennaf 2016 |
| Diogelwch Gwybodaeth - Ysgol Bro Lleu | **B** | 14 Gorffennaf 2016 |

| Enw'r Archwiliad | Categori Barn | Dyddiad Cyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio |
|---|---|---|
| Diogelwch Gwybodaeth - Ysgol Sarn Bach | **B** | 14 Gorffennaf 2016 |
| Diogelwch Gwybodaeth - Ysgol Dinas Mawddwy | **B** | 14 Gorffennaf 2016 |
| Diogelwch Gwybodaeth - Ysgol Edmwnd Prys | **B** | 14 Gorffennaf 2016 |
| Diogelwch Gwybodaeth - Ysgol Bro Hedd Wyn | **B** | 14 Gorffennaf 2016 |
| **CEFNOGAETH GORFFORAETHOL** | | |
| **Caffael ac Effeithlonrwydd** | | |
| System eGaffael - Trothwyon Goddefiant | **A** | 29 Medi 2016 |
| **Cofrestru** | | |
| Gwasanaeth y Crwner | **B** | 14 Gorffennaf 2016 |
| **CYLLID** | | |
| **Ariannol** | | |
| System Dyledwyr - Anfonebau gyda statws "Canslo" | **A** | 29 Medi 2016 |
| Trothwyon Gwirio | **Dim Categori** | 1 Rhagfyr 2016 |
| **Cyfrifeg** | | |
| Strwythur Codio | **Dim Categori** | 1 Rhagfyr 2016 |
| **Refeniw** | | |
| Taliadau Tai Dewisol | **A** | 1 Rhagfyr 2016 |
| Budd-daliadau - Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol | **A** | 6 Mehefin 2017 |
| Treth Cyngor - Gostyngiadau ac Eithriadau (Pobl) | **A** | 14 Gorffennaf 2016 |
| Trethi Busnes - Gostyngiadau Elusennau | **B** | 14 Gorffennaf 2016 |
| **ECONOMI A CHYMUNED** | | |
| **Hamdden** | | |
| Canolfan Byw'n Iach a Gweithgareddau Dŵr Bangor | **B** | 1 Rhagfyr 2016 |
| Canolfan Hamdden Plas Silyn | **A** | 1 Rhagfyr 2016 |
| Canolfan Hamdden Dwyfor | **B** | 1 Rhagfyr 2016 |
| Canolfan Hamdden Bro Dysynni | **B** | 1 Rhagfyr 2016 |
| **Ieuenctid** | | |
| Cyfrifon Clybiau Ieuenctid | **B** | 6 Mehefin 2017 |
| **Morwrol a Pharciau Gwledig** | | |
| Gwerthiant Disel | **C** | 9 Chwefror 2017 |
| Casglu Incwm Traethau | **B** | 1 Rhagfyr 2016 |
| **OEDOLION, IECHYD A LLESIANT** | | |
| **Ar draws yr adran** | | |
| Trefniadau Parhad Busnes-Gwasanaeth | **B** | 9 Chwefror 2017 |
| Rheolaeth Gyllidebol - Darparu | **B** | 1 Rhagfyr 2016 |
| Diogelu Rhag Colli Rhyddid | **C** | 6 Mehefin 2017 |
| Gweithwyr Cefnogol - Oedolion | **C** | 6 Mehefin 2017 |
| **Busnes** | | |
| Trefn Gwynion Gwasanaethau Cymdeithasol | **B** | 6 Mehefin 2017 |

| Enw'r Archwiliad | Categori Barn | Dyddiad Cyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio |
|---|---|---|
| **Cefnogi Pobl** | | |
| Grant Cefnogi Pobl | **A** | 1 Rhagfyr 2016 |
| **Gofal Cymunedol** | | |
| Gwyliau Gofalwyr Cymunedol | **Dim Categori** | 29 Medi 2016 |
| **Oedolion** | | |
| Taliadau Uniongyrchol | **Dim Categori** | 6 Mehefin 2017 |
| **Preswyl a Dydd** | | |
| Plas Pengwaith, Llanberis | **B** | 1 Rhagfyr 2016 |
| Plas Gwilym, Penygroes | **C** | 29 Medi 2016 |
| Bryn Blodau, Blaenau Ffestiniog | **B** | 9 Chwefror 2017 |
| Llys Cadfan, Tywyn | **B** | 1 Rhagfyr 2016 |
| **PLANT A CEFNOGI TEULUOEDD** | | |
| **Plant a Theuluoedd** | | |
| Grant Craidd Cyfiawnder Ieuenctid | **B** | 1 Rhagfyr 2016 |
| Grant Refeniw Dechrau'n Deg | **B** | 1 Rhagfyr 2016 |
| Gweithwyr Cefnogol | **C** | 9 Chwefror 2017 |
| **PRIFFYRDD A BWRDEISTREFOL** | | |
| **Fflyd** | | |
| Ffioedd MOT | **B** | 1 Rhagfyr 2016 |
| Rheolaeth Fflyd | **Dim Categori** | 6 Mehefin 2017 |
| **Rheoli Gwastraff a Strydoedd** | | |
| Gwastraff Masnachol | **B** | 6 Mehefin 2017 |
| **RHEOLEIDDIO** | | |
| **Gwarchod y Cyhoedd** | | |
| Iechyd Anifeiliaid | **B** | 9 Chwefror 2017 |
| **YMGYNGHORIAETH GWYNEDD** | | |
| **Ar draws yr adran** | | |
| Trefniadau Recriwtio a Phenodi | **B** | 6 Mehefin 2017 |
| Goramser | **C** | 14 Gorffennaf 2016 |

**Crynodeb o nifer yr adroddiadau ym mhob categori barn, Cynllun 2016/17:**

| | Nifer archwiliadau |
|---|---|
| A | **7** |
| B | **41** |
| C | **8** |
| Dim Categori | **13** |
| **Cyfanswm** | **69** |

**Atodiad 2**

**Dadansoddiad Amser Archwilio Mewnol 1 Ebrill - 31 Mawrth:**

| **2015/16** | | **2016/17** |
|---|---|---|
| **1,866** | **Cyfanswm Dyddiau** | **1,626** |
| 315 | Llai Gwyliau (Statudol ac Anstatudol) | 216 |
| **1,551** | **Cyfanswm y Dyddiau Ar Gael** | **1,411** |
| | Llai: | |
| 22 | Gwyliau Arbennig | 14 |
| 24 | Salwch | 29 |
| 3 | Hyfforddiant Proffesiynol | 5 |
| 53 | Hyfforddiant Swydd | 62 |
| **1,449** | **Dyddiau ar gael** | **1,301** |
| | Llai Amser Di-gynnyrch: | |
| 11 | Apwyntiadau Meddygol | 7 |
| 26 | Cofnodi a Rheoli Amser | 26 |
| 63 | Cyfarfodydd a Phwyllgorau | 94 |
| 2 | Cyflwyno Hyfforddiant | 1 |
| 4 | Cynnal Cyfweliadau | 2 |
| 29 | Gwaith Cefndirol | 24 |
| 23 | Gweinyddiaeth ayb. | 17 |
| 0 | Prosiect iGwynedd | 22 |
| 4 | Pwyllgor Archwilio | 4 |
| 93 | Rheolaeth Archwilio Mewnol | 105 |
| 2 | Rheoli Absenoldebau | 2 |
| 27 | Symud Swyddfa | 0 |
| 7 | Trafferthion TG | 8 |
| 9 | Ymarferiad Rheoli Gwybodaeth Archwilio Mewnol | 5 |
| **1,149** | **Cyfanswm Dyddiau Cynhyrchiol** | **984** |
| 32 | Gwaith APCE | 40 |
| **1,117** | **Cyfanswm dyddiau cynhychiol, Cyngor Gwynedd** | **944** |

**Dadansoddiad o ddefnydd dyddiau cynhyrchiol Cyngor Gwynedd:**

| 2015/16 | | 2016/17 |
|---|---|---|
| 983 | Gwaith Cynllun blwyddyn gyfredol | 810 |
| 1 | Cwblhau gwaith blwyddyn flaenorol | 3 |
| 0 | Cychwyn gwaith blwyddyn ddilynol | 0 |
| 34 | Cynghori | 29 |
| 41 | Gwaith dilyniant | 45 |
| 58 | Gwaith Ymatebol/Archwiliadau Arbennig | 58 |
| **1,117** | | **944** |

# Cynllun Archwilio Mewnol 2017/18

| Côd yr Archwiliad | Enw'r Archwiliad | Dyddiau |
|---|---|---|
| **CORFFORAETHOL** | | |
| | Gwaredu Gwastraff Cyfrinachol - Defnydd o Sachau Coch a Llarpiwyr | **10.00** |
| | Cefnogi Adolygiadau Ffordd Gwynedd | **20.00** |
| | System Integredig Dysgu a Datblygu | **10.00** |
| | Derbyn Tystlythyrau | **15.00** |
| | Ymwybyddiaeth o'r Polisi Canu'r Gloch | **15.00** |
| | Gweinyddu Costau Teithio Hunan-wasanaeth | **5.00** |
| | Trefniadau Diogelu - Ymwybyddiaeth Gweithwyr Maes o'r Polisi | **35.00** |
| | Trefniadau Diogelu - Sefydliadau | **4.00** |
| | Diwylliant ac Ymddygiad - Barn y Gweithlu | **15.00** |
| | Gwaith Atal Twyll ac Atal Llygredigaeth Rhagweithiol | **20.00** |
| | Rheoli Gwybodaeth - Sefydliadau | **6.00** |
| | Y Fenter Twyll Genedlaethol | **40.00** |
| **ADDYSG** | | |
| **Adnoddau** | | |
| | Grant Amddifadedd Disgyblion | **10.00** |
| | Grant Gwella Addysg ar gyfer Ysgolion | **15.00** |
| | Grant Addysg Ôl-16 | **3.00** |
| | Ymwybyddiaeth o Bolisi Canu'r Gloch - Cynradd ac Uwchradd | **25.00** |
| | Iechyd a Diogelwch - Cynradd | **25.00** |
| **GwE** | | |
| | Trefniadau Busnes | **20.00** |
| **Ysgolion** | | |
| | Incwm Cinio Ysgol | **20.00** |
| | Ysgolion - Cyffredinol | **10.00** |
| **ASIANTAETH CEFNFFYRDD GOGLEDD A CHANOLBARTH CYMRU** | | |
| | Iechyd a Diogelwch | **25.00** |
| **CEFNOGAETH GORFFORAETHOL** | | |
| **Democratiaeth** | | |
| | Hyfforddi Aelodau Newydd | **10.00** |
| **CYLLID** | | |
| **Ar draws yr adran** | | |
| | Diogelwch Systemau TG | **30.00** |
| **Ariannol** | | |
| | Trefniadau Adennill Dyledion a Gweithrediad Cyfreithiol | **15.00** |
| **Cyfrifeg** | | |
| | Praeseptau | **5.00** |

| Côd yr Archwiliad | Enw'r Archwiliad | Dyddiau |
|---|---|---|
| | **Pensiynau a Chyflogau** | |
| | Cronfa Bensiwn - Cyffredinol | **15.00** |
| | Grantiau Marwolaeth | **15.00** |
| | **Refeniw** | |
| | Budd-daliadau - Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol | **12.00** |
| | System Treth Cyngor - Advantage Digital Portal | **10.00** |
| **ECONOMI A CHYMUNED** | | |
| | **Adfywio Cymunedol** | |
| | Cronfa'r Degwm | **5.00** |
| | **Archifau, Amgueddfeydd a Chelfyddydau** | |
| | Storiel - Cau i Lawr y Prosiect | **5.00** |
| | Ymweliad Di-Rybudd | **1.00** |
| | **Hamdden** | |
| | Canolfannau Hamdden | **40.00** |
| | Taliadau Debyd Uniongyrchol Aelodaeth | **10.00** |
| | **Morwrol a Pharciau Gwledig** | |
| | Doc Fictoria | **10.00** |
| | **Strategaeth a Datblygu** | |
| | Menter Adfywio Glannau a Chanol Tref Caernarfon – Trefniadau Llywodraethu | **15.00** |
| **OEDOLION, IECHYD A LLESIANT** | | |
| | **Busnes** | |
| | Trefniadau Comisiynu | **30.00** |
| | **Cefnogi Pobl** | |
| | Grant Cefnogi Pobl | **15.00** |
| | **Oedolion** | |
| | Teleofal | **10.00** |
| | **Preswyl a Dydd** | |
| | Plas Maesincla, Caernarfon | **12.00** |
| | Plas Hafan, Nefyn | **12.00** |
| | Plas Ogwen, Bethesda | **12.00** |
| | Tai Cefnogol | **15.00** |
| | Hosteli Anableddau Dysgu | **20.00** |
| | Cynllun Lleoli Oedolion | **15.00** |
| **PLANT A CEFNOGI TEULUOEDD** | | |
| | **Plant a Theuluoedd** | |
| | Grantiau | **24.00** |
| | Trefniadau ar gyfer Plant yn Gadael Gofal | **20.00** |
| | Cynlluniau Gofal a Chymorth (Plant) o dan Rhan 4 DGC 2014 | **20.00** |
| **PRIFFYRDD A BWRDEISTREFOL** | | |
| | **Fflyd** | |

| Côd yr Archwiliad | Enw'r Archwiliad | Dyddiau |
|---|---|---|
| | Depos | **15.00** |
| | **Rheoli Gwastraff a Strydoedd** | |
| | Targedau Ailgylchu | **10.00** |
| | Casglu Gwastraff Gardd | **15.00** |
| **RHEOLEIDDIO** | | |
| | **Gwarchod y Cyhoedd** | |
| | Hylendid Bwyd | **8.00** |
| | Trwyddedu | **8.00** |
| | **Tir ac Eiddo'r Cyngor** | |
| | Manddaliadau | **8.00** |
| | Cynlluniau Adeiladu Ysgolion - Ysgol Glancegin | **10.00** |
| | **Trafnidiaeth a Gofal Stryd** | |
| | Tocynnau Mantais Bws | **8.00** |
| **TAI** | | |
| | **Rhent a Rheolaeth Tai** | |
| | Rhestr Aros Tai | **12.00** |
| **YMGYNGHORIAETH GWYNEDD** | | |
| | **Adeiladau ac Amgylcheddol** | |
| | Statws Cyflogaeth | **10.00** |
| | **Ar draws yr adran** | |
| | Achrediadau | **15.00** |
| | | **870.00** |